



Ein cyf/Our ref: MA-P/DET/4383/18

Dr Dai Lloyd AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Dai.Lloyd@assembly.wales

21 Rhagfyr 2018

Annwyl Dai,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Tachwedd ynglŷn â chanlyniadau arolwg Cyflwr y Genedl Chwaraeon Cymru 2018. Roedd yr arolwg yn cynnwys dros **118,000** o ddisgyblion a dros **1,000** o athrawon, lenwodd yr holiadur Arolwg ar Chwaraeon Ysgol am y ddarpariaeth sydd ar gael. Roedd hyn yn gynydd yn y nifer gymerodd ran yn 2015, sy'n golygu mai dyma'r arolwg mwyaf yn y DU o bobl ifanc a chwaraeon. Mae arolygon o'r maint hwn yn helpu i lywio polisiau yn y dyfodol ac mae eisiau llongyfarch Chwaraeon Cymru.

Fel a nodwyd gennych, mae'r ffigur cyfranogi cyffredinol yn **48%** sy'n siomedigaeth. Fodd bynnag, o ystyried bod cynnydd o **20%** dros gylch y ddau arolwg diwethaf (roedd cynnydd o 13% yn 2013 ac 8% arall yn 2015) mae gallu cynnal y lefel bresennol yn bositif wrth i Chwaraeon Cymru ddechrau ar eu Strategaeth Chwaraeon newydd. Rwy'n cytuno bod llawer o gynydd i'w wneud o hyd, ac mae fy swyddogion yn gweithio gyda Chwaraeon Cymru i sicrhau bod eu modelau cyflenwi a buddsoddi newydd yn ceisio cynyddu'r lefelau cyfranogi hyn.

Roeddwn yn falch iawn o weld y cynnydd yn y cyfraddau cyfranogi ymysg y grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn draddodiadol, gan gynnwys y rhai hynny ag anabledd/nam a grwpiau ethnig (mae Asiaidd/Asiaidd-Prydeinig wedi mynd o 36% i 40%, tra bod Arabaidd/Eraill wedi cynyddu 7 pwynt canran o 39% i 46%). Nid oes gennym bellach grŵp ethnig sy'n is na **40%** am y tro cyntaf erioed, sy'n dangos bod cyfleoedd chwaraeon yn cyrraedd pob rhan o'n cymunedau.

Mae'r Arolwg yn nodi bod disgyblion benywaidd a hŷn yn cymryd rhan yn llai aml mewn Addysg Gorfforol a Chwaraeon. Mae Addysg Gorfforol yn bwnc statudol yn y cwricwlwm i ddysgwyr, hyd at oedran 16, ac mae'r Rhaglen Astudio Addysg Gorfforol yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion roi cyfleoedd i **bob dysgwr** gymryd rhan yn y pedwar maes penodol o ddysgu, sy'n cynnwys iechyd, ffitrwydd a llesiant, gweithgareddau creadigol a chystadleurwydd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru)  
[Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales](mailto:Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r Gweinidog Addysg yn gweithio gydag ysgolion Arloesol a rhanddeiliaid, gan gynnwys Chwaraeon Cymru, i ddatblygu cwricwlwm newydd i Gymru, gan ddatblygu argymhellion yr adroddiad *Dyfodol Llwyddiannus*. Un o bedwar prif bwrpas y cwricwlwm newydd, fydd yn cynnwys Maes Dysgu a Iechyd a Llesiant, yw bod dysgwyr yn datblygu **unigolion iach a hyderus** sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol, ac felly mae hyn yn hanfodol i'r cwricwlwm newydd. Bydd y cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno i bob ysgol ddechrau mis Medi 2022 i ddisgyblion ysgolion cynradd a disgyblion Blwyddyn 7 mewn ysgolion uwchradd, gan gael ei gyflwyno'n llawn i bob disgybl erbyn 2026.

Rydym yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith ond rydym wedi gwneud cynnydd da dros y blynyddoedd diwethaf o ran cynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan, felly mae cynnal y niferoedd sy'n cymryd rhan yn beth positif. Byddwn yn parhau i dargedu buddsoddiad mewn ardaloedd sydd wedi'u hamddifadu'n gymdeithasol ledled Cymru fel bod pobl ifanc, waeth beth yw eu hamgylchiadau cymdeithasol, yn derbyn yr un cyfle ac yn gallu cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, rwyf wedi sefydlu Cronfa Iach ac Egniol newydd sy'n bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru a Iechyd Cyhoeddus Cymru gan gynnwys buddsoddiad o £5 miliwn dros y dair blynedd nesaf. Bydd hyn yn canolbwyntio ar gefnogi prosiectau sy'n cefnogi dulliau o fyw egniol, gan gefnogi asedau cymunedol a hefyd annog partneriaid sydd â diddordeb i gydweithio, ac mae Chwaraeon Cymru yn nodi bod gan rhanddeiliaid a phartneriaid ddiddordeb mawr.

Mae Chwaraeon Cymru hefyd yn cyflwyno model newydd ar gyfer Chwaraeon Cymunedol drwy sefydlu cyrff rhanbarthol i ddechrau gyda Gogledd Cymru. Cynhelir trafodaethau gyda phartneriaid allweddol a bydd y dull hwn o weithio yn canolbwyntio ar gydweithio i gefnogi ein cymunedau i ddod yn ganolbwynt gweithgareddau.

Yn gywir



**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**  
**Dafydd Elis-Thomas**

**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**  
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**